

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 3 Medi 2012 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc

Presennol

Cyng. Dilwyn Jenkins (Cadeirydd)

Cyng. Islwyn Iago

Cyng. Huw Jones (cyrraedd 7.45)

Cyng. Ann Stokoe (cyrraedd 7.50)

Cyng. Eurig Lloyd (cyrraedd 7.45)

Cyng. Haydn Lewis (Aelod lleol o'r Cyngor Sir)
(cyrraedd 8.10)

Cyng. Auriol Williams (Is-Gadeirydd)

Cyng. Llinos Price

Cyng. Lyn Jones (cyrraedd 7.45)

Cyng. Morris Davies (cyrraedd 7.45)

Cyng. Des Davies

Mrs Hildreth Owen (Clerc)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i'r cyfarfod. Llongyfarchodd bobl ifanc yr ardal sydd wedi cael llwyddiant yn eu harholiadau TGAU a Lefel 'A' a dymunodd yn dda i'r rhai sydd yn gadael i fynychu addysg uwch
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod cofnodion mis Gorffennaf yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Dim
- 5. Materion yn codi:**

Meinciau yng Ngolygfan y Gwbert: Mae'r Clerc yn dal i chwilio i mewn i berchnogaeth y meinciau. Penderfynwyd gadael y mater yma am y tro am fod cyflwr y meinciau yn foddhaol. Pe bai newid yn eu cyflwr, cytunwyd i'r Cyngor ailystyried eu dyfodol.

Highcliff, Gwbert: Yn dilyn cyfres o gwynion yn ymwneud â'r dramwyfa sydd yn ymestyn tu hwnt i'r ffin yn ymyl Highcliff, gofynnwyd i'r Clerc hel gwybodaeth ynglŷn â'r llythyr anfonwyd at y Cyngor Sir ym mis Mai. Cafwyd cadarnhad y byddai'r swyddogion perthnasol yn archwilio'r sefyllfa. Mae'r Cyng. Haydn Lewis (aelod lleol Cyngor Sir Ceredigion) wedi danfon llythyr at y Cyngor Sir ynglŷn â hyn. Derbyniwyd copi o lythyr anfonwyd gan y Cyngor Sir i berchennog Highcliff yn dweud bod rhaid iddo ddatrys y broblem erbyn 27 Mehefin neu y byddai'r gwaith yn cael ei gyflawni gan y Cyngor Sir ar gost y perchennog. Gan nad oedd y gwaith wedi ei gyflawni erbyn dechrau Awst, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir unwaith eto. Gan fod gwaith wedi ei ddechrau, cytunwyd gofyn i swyddogion y Cyngor Sir archwilio'r sefyllfa presennol.

Mewnfudwyr i Geredigion: Mae'r Cyng. Haydn Lewis hefyd wedi danfon llythyr at y Cyngor Sir yn gofyn am yr wybodaeth ynglŷn â mewnfudwyr. Gofynnwyd iddynt ymateb i'r Clerc. **Dywedodd y Cyng. Haydn Lewis byddai'n edrych i mewn i'r mater cyn cyfarfod mis Hydref.**

Cyffordd Llwynllwyd Fach/Lleine Price: Ymateb i lythyr y Cyngor yn dweud y byddant yn cysylltu eto ynglŷn â'r mater yma pan fyddant yn delio â'r gwaith wrth gefn yn dilyn y gwaith paratoi yn ymwneud â thrafnidiaeth.

Llwybr o Olygfan Gwbert i Westy'r Cliff: Derbyniodd y Clerc alwad ffôn (2 Awst) oddi wrth Mrs Wendy Champion gan ddweud y cwblheir y gwaith o drasio'r llwybr o fewn y dyddiau nesaf. **Mae'r gwaith wedi ei gyflawni.**

Adran Gynllunio'r Cyngor Sir: Ymateb i wahoddiad swyddog o'r Cyngor Sir egluro'r canllawiau ynglŷn â gwahanol geisiadau cynllunio (**gweler eitem 9 rhif 69**). Penderfynwyd trafod y **posibilrwydd o gynrychiolwyr y Cyngor fynychu cyfarfod ym Mhenmorfa gyda swyddogion yr adran. Cytunwyd trafod yr amserlen yng nghyfarfod mis Hydref.**
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7. Cynllunio (Danfonwyd 19/7/12)

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A120460	Trefwtial, Tremain. "Erection of calf rearing shed"	Nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad.

Datganiad diddordeb: Y Cyng. Eurig Lloyd

Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Medi 2012.

Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A120455	Mrs L. Flude, Brynhyfryd, Ferwig. "Replacement extension to rear of property with bedroom above".	Wedi ei ganiatáu.

Cyfarfod Safle. Ni chynhelir cyfarfod safle yn ystod y mis.

8. Materion Ariannol.

Biliau wedi eu talu:

BDO (Tâl am archwiliad 2011-12)	101239	£162.00
Mr John Morris (Trasio llwybrau am 2012)	101240	£825.60
C.Ff.I. Penyparc (Glanhau'r ystafelloedd newid, 5/6/12 – 5/9/12)	101241	£216.00

Cynigiwyd gan y Cyng Ann Stokoe ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Derbyniadau: Dim.

Materion ariannol eraill: Cadarnhad o derfyniad yr archwiliad allanol (gweler eitem 9 rhif 71). Cytunodd y Cyngor gadarnhau a derbyn yr archwiliad.

9. Gohebiaeth:

58	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Gyllid)	Costau Etholiadau Cyngorau Tref a Chymuned 2012 = £153.00	Y swm i'w dalu allan o braesept 2013/14.
59	Shelter Cymru	Cais am gymorth ariannol.	Cytunwyd cyfrannu at elusennau lleol yn unig.
60	NSPCC	Cais am gymorth ariannol.	Cytunwyd cyfrannu at elusennau lleol yn unig.
61	Dyslecsia Cymru	Cais am gymorth ariannol.	Cytunwyd cyfrannu at elusennau lleol yn unig.
62	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd)	Ymateb i llythyr y Cyngor yn ymwneud â Chyffordd Llwynllwyd Fach/Lleine Price	Gweler eitem 5.
63	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd)	Cadarnhad o dderbyn llythyr y cyngor yn ymwneud â chasglu porfa yn dilyn trasio'r cloddiau.	Nodwyd
64	Sianel Glir Afon Teifi Cyf.	Copi o ateb llythyr y Cyng. Haydn Lewis ynglŷn â'r sbwriel ar draeth Patch.	Gweler eitem 10
65	Llywodraeth Cymru	"Canllaw'r Cynghorydd Da 2012"	Copiâu wedi eu dosbarthu i bob aelod.
66	Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Cyfarfod Ymgynghoriad yn Aberystwyth 25 Medi	Nodwyd
67	Pwyllgor Lles Pentref Penyparc	Llythyr o ddiolch am gael defnydd o'r cae pêl-droed ayyb.	Nodwyd

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

68	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd)	Cadarnhad o dderbyn llythyr o gwyn ynglŷn â thoriadau wedi eu gadael ar ymyl y ffordd.	Nodwyd
69	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Gynllunio)	Ymateb i wahoddiad swyddog o'r Cyngor Sir	Gweler eitem 5
70	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Cynllun newydd sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli i oedolion.	Posteri i'w harddangos yn yr hysbysfyrddau.
71	BDO (Archwilydd allanol)	Cadarnhad o derfyniad yr archwiliad.	Y Clerc wedi arddangos hysbysiad o derfyniad yr archwiliad ar yr hysbysfyrddau (20/8/12)
72	Ceredigion Age Cymru	Hysbysiad o wasanaeth glanhau cartrefi	Wedi eu dosbarthu i'r hysbysfyrddau.
73	Un Llais Cymru	Cynigion Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 13/10/12	Nodwyd
74	Gwasanaeth Tân ac Achub	Copi o Gynllun Cymunedol Ceredigion 2012-13	Copi ar gael gan y Clerc.
75	RAY Ceredigion	Gwahoddiad i ddigwyddiad a gynhelir yn Swyddfa Cyngor Sir Ceredigion 13/9/12 ac i'r Cyfarfod Blynnyddol yn Aberaeron 19/9/12.	Nid yw'n berthnasol
76	Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda	"Eich Iechyd, Eich Dyfodol": Ymgynghoriad ffurfiol. Cyfarfod Cyhoeddus yn Y Morlan, Aberystwyth 25/9/12 6.30–8.30yh a Sesiwn Galw Heibio yn Neuadd y Dref, Aberteifi 4/10/12 2-7.30yh	Y Clerc wedi gofyn am gopïau caled a chopi o'r holiadur. Nid yw'n berthnasol i gynghorau cymuned.
77	Cyngor Tref Aberteifi	Gwahoddiad i'r Cadeirydd a'i gymar i Oedfa Ddinesig Maer Tref Aberteifi ddydd Sul, 23 Medi 2012 yn Eglwys y Santes Fair	Y Cyng Dilwyn Jenkins a Mrs Eleri Jenkins i fynychu'r cyfarfod
78	Y Cyng. Haydn Lewis	Nodyn i ddweud y byddai'n hoffi clywed barn y Cyngor ar: 1. Y Cardi Bach, 2. Glendid traeth Patch. 3. Culhau'r ffordd gerllaw Gwbert ac unrhyw fater arall.	Gofynnwyd i'r clerch anfon llythyr yn gofyn faint o ddefnydd sydd yn cael ei wneud o'r "Cardi Bach".
79	Un Llais Cymru	Manylion am gyrsiau hyfforddi.	Nodwyd.
80	Un Llais Cymru	Rhifyn Haf 2012 'Y Llais'	Copi ar gael gan y Clerc.
81	CFfl Penyparc	Llythyr yn gofyn caniatâd i gynnal noson o adloniant ayyb ar gae Neuadd Barclay.	Y Clerc i ddanfôn llythyr o ganiatâd

10. Materion Eraill / Other Matters.

Balchder Pentrefi: Awgrymiadau:

Bwrdd Gwybodaeth i'w leoli ar safle yn y gymuned.

Gwella'r fynedfa i Hen Ysgol y Ferwig.

Mae'r Is-bwyllgor wedi symud ymlaen gyda'r prosiect. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag Un Llais Cymru ynglŷn â chanllawiau ar dderbyn rhodd ariannol oddi wrth "Hen Ysgol y Ferwig" tuag at ledaenu mynedfa'r ysgol.

Dywedodd y Cyng. Auriol Williams bod yr Is-bwyllgor wedi danfon llythyr at Mr Neale Hinchcliffe yn

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

amlinellu cynlluniau'r is-bwyllgor er mwyn gwneud cais at gynllun Balchder Pentrefi. Hysbyswyd ef hefyd bod angen gwneud cais at y Cyngor Sir am ganiatâd i weithredu felly gan ofyn am gyfarfod safle cynted â phosib. Cyfarfu aelodau o'r Is-bwyllgor â Mr Hinchcliffe. Daethpwyd i'r casgliad bod angen cael caniatâd perchennog Hen Ysgol y Ferwig, sef y Cyngor Sir, cyn symud ymlaen i ehangu'r fynedfa. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu â Jo Shaw, Swyddog Prosiect Balchder Pentrefi, gan ofyn iddi gynnig dyddiadau delfrydol i drefnu cyfarfod.

Sbwriel wedi ei adael ar y traeth yn Patch: Derbyniodd y Clerc alwad ffôn oddi wrth aelod o'r cyhoedd yn achwyn ynglŷn â bagiau baw cŵn ayyb wedi eu gadael ar y traeth yn Patch. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â'r lleoliad yma a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Warden Cŵn. Ymwelodd ef â'r safle ac addawodd ymateb wedi iddo hel gwybodaeth. Ysgrifennodd ein Cyngorydd Sir lleol, y Cyng. Haydn Lewis, at bwyllgor Sianel Glir Afon Teifi (mae copi o'r llythyr gyda'r Clerc). Cysylltodd y Clerc gyda'r warden cŵn ar 3 Gorffennaf. Mae'n dal yn aros i glywed oddi wrth y Cyngor Sir ynglŷn â'r ffordd ymlaen gyda'r broblem yma. Gan mai Sianel Glir Afon Teifi Cyf. sydd yn gyfrifol am y brydles, penderfynwyd ysgrifennu atynt i ofyn iddynt leoli bin wrth ymyl y sgip a hefyd gosod arwydd ar y sgip yn hysbysu ei fod ar gael yn unig at ddefnydd pysgotwyr.

Ilwybr o Olygfan Gwbert i Westy'r Cliff: Cysylltodd y Cadeirydd â'r Clerc gan ofyn iddi gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r Ilwybr yma sydd angen ei drasio. **Mae'r gwaith wedi ei gwblhau.**

Ilwybr Ceffyl rhwng Llain y Cwm a heol Trecefn Isaf: Derbyniodd y Clerc alwad ffôn i ddweud bod gordyfiant ar y llwybr yma. Cysylltodd â Mr John Morris gan ofyn iddo ei dorri. Dywedodd y byddai yn ei wneud cyn gynted â phosib. **Mae'r gwaith wedi ei gwblhau.**

Traeth Evelyn, Gwbert: Derbyniodd y Clerc alwad ffôn oddi wrth Mrs Shirley Daniel gan ddweud bod gordyfiant ar y ffordd i lawr i draeth Evelyn. Addawodd y Clerc gysylltu â Mr John Morris i gyflawni'r gwaith. **Mae'r gwaith wedi ei gwblhau.**

Traeth Morgan, Gwbert: Derbyniodd y Clerc alwad ffôn oddi wrth Mrs Shirley Daniel gan ofyn a fyddai'n bosib cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â lleoli rheiliau ar y llwybr i'r traeth. Cytunwyd danfon llythyr i'r Cyngor Sir yn eu hatgoffa am eu datganiad yn y flwyddyn 2003 y byddent yn lledaenu y grisiau i gynorthwyo cerddwyr i'r traeth. Datganwyd yn y llythyr hwnnw hefyd na fyddai'n bosib gosod rheiliau ar ymyl y grisiau oherwydd cyflwr y graig. Gofynnwyd i'r Clerc hysbysu Mrs Daniel o'r ffeithiau uchod.

Y Cardi Bach: Cysylltodd y Cyng. Dilwyn Jenkins gan leisio'i bryder nad yw cerbyd Y Cardi Bach mor amlwg â ddylai fod a bod yr arwyddion yn anweladwy. Anfonwyd llythyr at y Cyngor Sir. Gofynnwyd i'r Clerc hel gwybodaeth am nifer o ddefnyddwyr y "Cardi Bach" hyd yn hyn.

Mrs Amanda Rogers: Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc ddanfon llythyr o gefnogaeth at Mrs Rogers yn ei brwydr i hel meddyginiaeth gyflawn i'w thriniaeth. **Mae'r Clerc wedi danfon llythyr at Mrs Rogers.**

Cae Pêl-droed Penyparc: Derbyniwyd cais oddi wrth y Clwb Pêl-droed i rowlio'r cae cyn y cynhelir asesiad risg. Yn dilyn cyfarfod rhwng y Cadeirydd, y Clerc ac aelodau'r Clwb, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Gareth Owen i ofyn a fyddai'n medru cyflawni'r gwaith yma. Dywedodd Mr Owen y byddai'n rhaid gwaredu'r gwahaddod cyn y byddai'n fanteisiol rowlio'r cae. **Gofynnwyd iddo gyflawni'r gwaith arferol o dorri'r glaswellt.**

Gordyfiant ar y llwybr o Fferm Aberdâr i Felin Bedr. Er bod y gwaith yma wedi ei gyflawni eisoes, derbyniwyd cwynion bod rhannau o'r llwybr yn or-dyfu. **Mae'r Clerc wedi cysylltu â Mr John Morris.**

Mwd ar y ffordd ayyb: Dywedodd y Cyng. Islwyn Iago bod mwd ar y man pasio rhwng Blaenwaun a'r Graig. Ychwanegodd bod yr arwydd "Wyneb dros dro" yn dal heb ei gasglu gan y Cyngor Sir. **Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir.**

11. Dyddiad Cyfarfod nesaf y Cyngor: 1 Hydref 2012 yn Hen Ysgol y Ferwig am 7.30yh.

Gweddill Cyfarfodydd y Cyngor am 2012:

5 Tachwedd (YB) 3 Rhagfyr (F).

Cyfarfodydd y Cyngor am 2013

7 Ionawr (YB) 4 Chwefror (F) 4 Mawrth (YB) 8 Ebrill (F) 13 Mai (YB) (CB)
3 Mehefin (F) 8 Gorffennaf (YB) 2 Medi (F) 7 Hydref (YB)
4 Tachwedd (F) 2 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynnyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 3 September 2012 at 7.30pm at Neuadd Berkley, Penyparc.

Present:

Cllr Dilwyn Jenkins (Chairman)

Cllr Islwyn Iago

Cllr Huw Jones (arr. 7.45)

Cllr Ann Stokoe (arr. 7.50)

Cllr Eurig Lloyd (arr. 7.45)

Cllr Haydn Lewis (Local County Council Member)
(arr. 8.10)

Cllr Auriol Williams (Vice-Chairman)

Cllr Llinos Price

Cllr Lyn Jones (arr. 7.45)

Cllr Morris Davies (arr. 7.45)

Cllr Des Davies

Mrs Hildreth Owen (Clerk)

1. **Chairperson's welcome.** The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed everyone to the meeting. He congratulated all local pupils who were successful in their GCSE and 'A' Level examinations and extended good wishes to those who are leaving to attend further education

2. **Apologies for absence:** There were no apologies.

3. **Minutes of the previous meeting.**

It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Des Davies that the minutes of the July meeting were correct.

4. **Declaration of personal interests:** None.

5. **Matters arising:**

Benches at the Gwbert Viewpoint: The Clerk is continuing her research into ownership of the benches. As the general condition of the benches was deemed satisfactory, it was agreed to defer decision for the time being. If their condition deteriorates, the Council will raise the matter at a future date.

Highcliff, Gwbert: Following numerous complaints received regarding the protrusion of the driveway, the Clerk was asked to obtain further information from the County Council regarding this. It was confirmed that the appropriate officers would investigate. Cllr Haydn Lewis (local member of the County Council) has written to the County Council regarding this. A copy of this letter has been forwarded to the Clerk. The Clerk has received a copy of the letter sent by the County Council to the owner of Highcliff stating that he has one month to correct the driveway; upon failure to adhere to this request, the County Council would complete the work and invoice the owner. As the work had not been completed by the beginning of August, the Clerk was asked to contact the County Council once more. The work has now been commenced; it was, therefore, suggested to ask the authority to inspect the present position.

Incomers to Ceredigion: Cllr Haydn Lewis has written to the County Council asking for information regarding the financing of incomers to the county. Ceredigion County Council was asked to forward a copy of the reply to the Clerk.

Cllr Lewis stated that he would pursue the matter by the October meeting.

Junction between Llwynllwyd Fach/Lleine Price: The County Council replied stating they would contact the Council again regarding this work when local work concerning traffic and highways would be considered.

Path from the Gwbert Viewpoint to the Cliff Hotel: The Clerk had received a telephone call from Mrs Wendy Campion (2 August) stating that the work would be completed in the near future. **Work has now been completed.**

County Council Planning Department: Response regarding the request of the Council for directives concerning a variety of planning applications (see item 9 no. 69). **It was agreed to discuss the possibility of representation from the Council to attend a meeting at Penmorfa with officers of the department. It was further agreed to discuss the timetable in the October meeting.**

6. **Requests for financial support.**

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7. Planning (Forwarded 19/7/12)

<i>App. No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>Observations</i>
A120460	Trefwtial, Tremain. "Erection of calf rearing shed"	Council had no objection.

Declaration of Interest: Cllr Eurig Lloyd

County Council Planning Meeting : 12 September 2012.

Applications approved or refused by the County Council:

<i>App. No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>County Council decision</i>
A120455	Mrs L. Flude, Brynhyfryd, Ferwig. "Replacement extension to rear of property with bedroom above".	Approved

Site meeting. No site meeting was held during the month.

8. Financial Matters.

Bills paid:

BDO (External Audit 2011-12)	101239	£162.00
Mr John Morris (Trashing of paths, 2012)	101240	£825.60
Penyparc YFC (Cleaning of changing rooms, 5/6/12 – 5/9/12)	101241	£216.00

It was proposed by Cllr Ann Stokoe and seconded by Cllr Auriol Williams that the above bills be paid.

Receipts: None.

Other Financial Matters: Confirmation of conclusion of external audit 2011-12 (see item 9 no. 71). The Council agreed to confirm and accept the audit.

9. Correspondence:

58	Ceredigion County Council (Finance Dept.)	Town and Community Council Election Costs 2012 = £153.00	Sum to be deducted from 2013/14 precept.
59	Shelter Cymru	Application for financial aid.	It was agreed to support local charities only.
60	NSPCC	Application for financial aid.	It was agreed to support local charities only.
61	Dyslexia Wales	Application for financial aid.	It was agreed to support local charities only.
62	Ceredigion County Council (Highways)	Response re. lane leading from Llwynllwyd Fach – Potential hazard at junction	See item 5.
63	Ceredigion County Council (Highways)	Acknowledgment of letter re. collection of hedge cuttings.	Noted
64	Afon Teifi Fairways Ltd.	Copy of letter to Cllr Haydn Lewis re. rubbish left on Patch beach.	See item 10
65	Welsh Government	"The Good Councillor's Guide 2012"	Copies distributed to all members.
66	Hywel Dda Health Board	Consultation Meeting at Aberystwyth, 25 September	Noted
67	Pwyllgor Lles Pentref Penyparc	Letter of acknowledgment for use of football field, etc.	Noted
68	Ceredigion County Council (Highways)	Acknowledgment of letter re. cuttings left on the pathway between Nantyferwig and the slipway at Patch.	Noted

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

69	Ceredigion County Council (Planning)	Response to the council's invitation	See item 5
70	National Library of Wales	New scheme offering a variety of volunteering opportunities to adults.	Posters have been distributed to notice boards.
71	BDO (External Auditors)	Confirmation of conclusion of audit.	Notices of Conclusion of Audit have been displayed on notice boards for 14 days from 20/8/12.
72	Ceredigion Age Cymru	Notice of home cleaning service.	Posters have been distributed to notice boards.
73	One Voice Wales	Motions for debate at AGM 13/10/12	Noted
74	Mid and West Wales Fire & Rescue Service	Copy of the Ceredigion Community Plan 2012-13	Copy available with Clerk
75	RAY Ceredigion	Invitation to event to be held at the CCC offices 13/9/12 and to the AGM at Aberaeron 19/9/12.	Not appropriate
76	Community Health Council Hywel Dda	"Your Health, Your Future": Formal Consultation at Y Morlan, Aberystwyth 25/9/12 6.30-8.30pm and Drop-in Session at the Guildhall, 4/10/12 2-7.30pm	The Clerk has requested for a hard copy of the report and questionnaire. It was deemed not appropriate for local councils.
77	Cardigan Town Council	Invitation to the Chairman and partner of the Council to attend a Civic Service at St Mary's Church, Cardigan, Sunday, 23 /9/12, 2.30pm	Cllr Dilwyn Jenkins and Mrs Eleri Jenkins to attend the service.
78	Cllr Haydn Lewis	Note to request the Council's opinion on the following: 1. Y Cardi Bach, 2. Condition of Patch beach . 3. The narrow road near Gwbert; and any other matters.	The Clerk was asked to seek statistical information regarding the use of "Y Cardi Bach".
79	One Voice Wales	Details of training courses.	Noted
80	One Voice Wales	Summer 2012 edition of 'The Voice'	Copy available with the Clerk.
81	Penyparc YFC	Letter seeking permission to hold an event at the Neuadd Berkley field April 2013.	The clerk to forward a letter of approval.

10. Other Matters

Village Renewal Fund: Suggestions:

Information Board to be located in the community.

Improvement to the entrance to Ferwig Old School.

The sub-committee has moved the project on. The Clerk was asked to contact One Voice Wales regarding directives on receiving a donation from "Hen Ysgol y Ferwig" towards widening the entrance at the school. Cllr Auriol Williams stated that the sub-committee was in the process of forwarding a letter to Mr Neale Hinchcliffe underlining the proposals of the sub-committee in order to place an application with Balchder Pentrefi. He was also informed that an application would be forwarded to the County Council for permission to proceed, and to request a site meeting as soon as possible. Members of the sub-committee met with Mr Hinchcliffe. It was concluded that permission of the owners of the old school, Ceredigion County Council, would have to be sought before moving to widen the entrance. It was agreed that the Clerk contact Jo Shaw, Project Officer Balchder Pentrefi, asking for suitable dates to organise a meeting.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Rubbish left on the beach at Patch: The Clerk received a telephone call from a member of the public regarding bags of dog mess etc being dumped on the beach at Patch. The Chairman confirmed that he had visited the area and the Clerk was asked to contact the Dog Warden. He also visited the location and promised to contact the Clerk when he had more information. Cllr Haydn Lewis, Local County Council member, wrote to Afon Teifi Fairways (the Clerk has a copy of this letter). The Clerk again contacted the Dog Warden on 3 July. He stated that he was still awaiting information from the County Council and would contact the Clerk when any information came to hand. As Afon Teifi Fairways Ltd is the body responsible for the lease, it was resolved to write to them asking them to locate a bin alongside the skip and to post a notice informing people that it was solely for the use of fishermen.

Footpath from Gwbert Viewpoint to the Cliff Hotel: Following complaints received regarding overgrowth on the path, it was suggested that the Clerk contacts the County Council asking them to cut the grass on either side of the path. **The work has been completed.**

Bridlepath between Llain y Cwm and Trecefn Isaf: Cllr Auriol Williams received complaints that this bridlepath was overgrown. The Clerk was asked to contact Mr John Morris who promised to deal with this immediately. **The work has been completed.**

Morgan's Beach, Gwbert: The Clerk received a telephone call from Mrs Shirley Daniel asking for handrails to be placed alongside the path to Morgan's beach. It was agreed to forward a letter to the County Council reminding them of their statement in 2003 to widen and level the steps to the beach to assist walkers. It was stated by the authority in that letter that it was impossible to place handrails due to the flaky condition of the rock. The Clerk was asked to inform Mrs Daniel of these facts.

"Y Cardi Bach": Cllr Dilwyn Jenkins aired his concerns that the vehicle was not as obvious to walkers with its insipid colouring and that the wording on its body was not large enough. The Clerk was asked to obtain the latest statistics regarding the use of the service from the County Council.

Mrs Amanda Rogers: The Clerk was requested to forward a letter of support to Mrs Rogers in her plight to obtain the required medication to treat her serious medical condition. **The clerk confirmed that a letter had been sent.**

Penyparc Football Field: An application has been received from Penyparc FC for the pitch to be rolled before undertaking a risk assessment. Following a site meeting between the Chairman, the Clerk and members of the Club, it was resolved to ask Mr Gareth Owen to complete the work. Mr Owen was concerned that the molehills would have to be removed before rolling would be beneficial. He was asked to proceed with the grasscutting.

Overgrowth on the pathway between Aberdare Farm and Felin Bedr: Although this work had been carried out earlier, complaints had been received that sections of the pathway were again impassable. The Clerk has contacted Mr John Morris to cut the overgrowth.

Mud on the road, etc.: Cllr Islwyn Iago stated that there was mud on the road in the passing bay between Blaenwaun and Graig. He added that the "Temporary road surface" sign was still abandoned on the roadside. The Clerk has contacted the County Council.

11. **Date of next Council Meeting:** 1 October, 2012 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

Remaining Council Meetings 2012:

5 November (YB) 3 December (F).

Council Meetings for 2013

7 January (YB) 4 February (F) 4 March (YB) 8 April (F) 13 May (YB) (AGM)

3 June (F) 8 July (YB) 2 September (F) 7 October (YB)

4 November (F) 2 December (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting